



Datganiad i'r Cyfryngau
8 Mehefin 2022
I'w ryddhau ar unwaith

O'r Lleol i'r Byd-eang - Sinemau a Gwyliau Ffilm Cymreig yn ailgysylltu Cynulleidfaedd gyda'r Byd yn 2022

Mae Canolfan Ffilm Cymru wedi dyfarnu £70,000 mewn cyllid Loteri Cenedlaethol i 13 o sinemau annibynnol a gwyliau ffilm yng Nghymru drwy ei Gronfa Arddangos Ffilmiau.

Fe fydd y cyllid yn galluogi cymunedau Cymreig i ailgysylltu drwy ffilm gan gefnogi eu lleoliad lleol. Gydag undod dan sylw, fe fydd straeon ar sgrin o Gymru ac ar draws y byd, a digwyddiadau a gweithdai arbennig yn edrych ar beth mae'n ei olygu i fod yn Gymreig ar ôl Covid.

Mae digwyddiadau i ddod yn cynnwys Gŵyl Caribïaidd Windrush a gynhelir yng Nghanolfan Gelfyddydau a Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd ym mis Mehefin eleni, mewn partneriaeth gyda Cinema Golau. Wrth i sinemau barhau i fod mewn cyfnod o ansicrwydd yn dilyn y pandemig, fe fydd yr ŵyl yn cynnig digwyddiadau ffilm fforddiadwy, gan groesawu pobl yn ôl i'r lleoliad i ddarganfod stori cenedlaeth Windrush Cymru.

Mae Yvonne Connike yn esbonio'r hyn y gall cynulleidfaedd edrych ymlaen ato:

"Mae gennym raglen rhyng-genedlaethau bywiog sydd yn adrodd stori cymuned Windrush yn y DU. Fe fydd plant a'u teuluoedd yn mwynhau ffilmiau animeiddio a ffilmiau byr gan artistiaid Caribïaidd. Fe fydd hefyd llyn gwych o ffilmiau byr gan fenywod Caribïaidd, rhai yn dod o Gymru. Mae'r ŵyl yn cynnig cyfle gwych i bontio'r sgwrs am bopeth Windrush, ar gyfer cenedlathau'r gorffennol, presennol a dyfodol."

Yng Nglan-yr Afon, Caerdydd mae, Gentle/Radical yn cynllunio chwyldro stepen drws drwy ail-lansio eu Clwb Ffilmiau Lleol. Fe fyddant yn ymestyn at drigolion lleol yn uniongyrchol gan eu galluogi i gymryd rhan mewn rhaglennu ffilmiau rhyngwladol a Chymreig, cyfarfod eu cymdogion ac edrych ar sut y gall sinema fod yn adnawdd diwylliannol pwerus o fewn bywyd o ddydd i ddydd.

Mae Rabab Ghazoul yn esbonio:

"Rydym yn hynod o gyffrous o fod yn lansio dangosiadau cymunedol unwaith eto yng nghanol ein cymdogaeth leol yng Nglan-yr-Afon. Cyn Covid roedd gennym gynlluniau i archwilio dangosiadau stryd yn yr ardal ond bu'n rhaid gohirio'r cynlluniau hynny. Felly rydym yn edrych ymlaen at dreialu'r model yma o'r diwedd, gan edrych ar yr awydd ymysg ein trigolion ar gyfer dangosiadau stryd gan ddwyn cymdogion sydd yn byw yn agos i fwynhau ffilm, bwyd a sgwrs gyda'i gilydd."

O wyliau ffilm rhyngwladol i rwydweithiau sinema gwledig, mae prosiectau a gyllidir gan Ganolfan Ffilm Cymru eleni yn gymdeithasol ymwybodol ac yn eofn, yn uchelgeisiol yn eu hymdrech i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig gynhwysol drwy ofod cymunedol sinema.

Mae Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru yn esbonio:

“Mae'r byd yn newid yn gyflym ac adlewyrchir hyn yn y straeon rydym yn chwilio amdany'n nhw ar sgrin. Mae'r prosiectau rydym yn eu cefnogi yn 2022 yn edrych ar sut rydym yn gweld ein hunain yng nghyd-destun y newidiadau yma. O ddangosiadau lleol sydd yn dwyn pobl at ei gilydd ar eu strydoedd i berthynas Cymru gydag Affrica neu gyfraniad amhrisiadwy cenhedlaeth Windrush, mae sinemau yn helpu cymunedau i wella a mwynhau unwaith eto ond hefyd i ddarganfod pwy ydyn ni fel Cymry mewn cyd-destun byd-eang”

Cefnogir y prosiectau gan Ganolfan Ffilm Cymru, rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI gan ddefnyddio cyllid gan y Loteri Cenedlaethol i sicrhau bod y dewis mwyaf o sinema ar gael i bawb ar draws y DU.

Mae Cronfa Arddangos Ffilm y BFI FAN yn bosibl diolch i arian y Loteri Genedlaethol gan Sefydliad Ffilm Prydain (BFI), trwy ei Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Mae'r gronfa'n cynnig cymorth ailagor i arddangoswyr ar draws y DU gyfan, i roi hwb i raglennu diwylliannol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol wrth i gyfyngiadau leddfdu. Gweinyddir cyllid yng Nghymru gan FHW drwy Chapter fel y Sefydliad Arweiniol Canolfan Ffilm.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos at achosion da ledled y DU.

Prosiectau a gefnogir

De Cymru

Cinema Golau

17 Mehefin – 19 Mehefin 2022

Mae Cinema Golau, Gŵyl Caribïaidd Windrush a pharateriaid cymunedol yn cydweithio i ddathlu Diwrnod Windrush, gan addysgu cymunedau am y cyfraniadau a wnaeth cymuned Caribïaidd Windrush i Gymru a'r DU gyfan. Dros dridiau yng Nglan yr Afon yng Nghasnewydd fe fydd yr ŵyl ffilmiau yn cynnig dangosiadau ffilm fforddiadwy, gweithdai a thrafodaethau panel gan alluogi'r lleoliad i ailgysylltu gyda chynulleidfaoedd yn dilyn cyfyngiadau Covid ac ailsefydlu cysylltadau gyda'r diwydiant ffilm.

[Twitter](#), [Facebook](#)

Birds Eye View

Gorffennaf - Rhagfyr 2022

Gan adeiladu ar eu perthynas cychwynnol gyda Chanolfan Gelfyddydau Chapter a nifer o sgriniau cymunedol yn y brifddinas fe fydd Birds Eye View yn datlbygu Reclaim the Frame (RtF) yng Nghymru gyda chefnogaeth Impact Producer o Gaerdydd i gyflwyno rhagor o ddigwyddiadau ffilm ac adeiladu cymuned fwy o gynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau gan wneuthurwyr ffilmiau benywaidd ac anneauaidd yng Nghaerdydd. Fe gaiff teitlau RtF eu dangos gyda digwyddiadau byw a sgysiau o Holi ac Ateb i drafodaethau a gweithdai.

[Website](#), [Twitter](#)

Gentle/Radical - Ailymgasglu: Dangosiadau lleol R&D yng Nglan-yr-Afon

Gorffennaf - Rhagfyr 2022

Yn dilyn dwy flynedd o Covid ac absenoldeb cyflwyno dangosiadau cymunedol fe fydd Gentle Radical yn ailgysylltu gyda chynulleidfaoedd cymdogaeth a darganfod beth ydy eu anghenion drwy gyfres o ddangosiadau pop-yp yng Nglan-yr-Afon a fydd yn gweithredu fel R&D ar gyfer cyfnod newydd Clwb Ffilmiau Gentle/Radical. Fe fyddan nhw yn treialu amrediad o genre ffilmiau a themâu/materion gyda chynulleidfaoedd lleol, yn cael eu marchnata drwy allgyrraedd lleol uniongyrchol, cnocio drysau, taflennu strydoedd unigol a threfnu ymgynulladau lleol.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

[Canolfan Gelfyddydau Memo \(y Barri\)](#)

Medi - Rhagfyr 2022

Mae Cine Memo yn dangos ffilmiau amrywiol Prydeinig, Cymreig, rhyngwladol ac annibynnol ochr yn ochr gyda theitlau ffilmiau poblogaidd gan gynnig sinema fforddiadwy, hygyrch ac ymlaciedig yn gynrychioledig o'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen yn annog mynychwyr sinema i ailymgysylltu gyda'r profiad sinema sgrin fawr a digwyddiadau cymryd rhan. Mae MAC yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fel sinema i helpu'r gymuned i ddod dros Covid, i ailadeiladu o'r effaith enfawr ar eu iechyd a llesiant economaidd a chymdeithasol. Mae digwyddiadau yn amrywio o ddangosiadau ar thema cwricwlwm gydag ysgolion, i ffilmiau teulu penwythnos, cyfeillgar i fabanod a chyd-ganu a gweithgareddau i gefnogi rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr, cynulleidfaoedd anabl a niwroamrywiol.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

[Gogledd Cymru](#)

[Cellb \(Blaenau Ffestiniog\):](#)

Ebrill - Rhagfyr 2022

Fe wnaeth Cyswllt Cymunedol esblygu o syniad prosiect Sinema'r Byd Cellb, fel dull o ddangos ffilmiau Byd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae hyn wedi tyfu i gynnwys ffilmiau annibynnol, ffilmiau Cymreig, ffilmiau dogfen a mathau eraill o ffilmiau sydd wedi'u tangynrychioli. Y nod ydy troi'r dangosiadau yn ddigwyddiadau gyda bwyd a diod, sesiynau Holi ac Ateb a grwpiau trafod.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

[Off Y Grid](#)

([Neuadd Dwyfor](#) ym Mhwlheli, [Pontio](#) ym Mangor, [Cellb](#) ym Mlaenau Ffestiniog, [Neuadd Ogwen](#) ym Methesda, [Galeri](#) yng Nghaernarfon, [Dragon Theatre](#) yn y Bermo a [TAPE](#) ym mae Colwyn):

Ebrill - Rhagfyr 2022

Mae Off Y Grid yn rhwydwaith o 7 o leoliadau ar draws gogledd Cymru sydd yn cydweithio ar weithgareddau fforddiadwy drwy gydol y flwyddyn gyda'r nod o hyrwyddo ffilmiau annibynnol a diwylliant byd-eang i gynulleidfaoedd gwledig yn eu sinema lleol annibynnol. Yn 2022 fe fyddan nhw yn parhau i gefnogi ffilmiau Cymreig yn cynnwys digwyddiadau arbennig o amgylch *Gwledd* a *The Welshman*, cyfres o ffilmiau gan wneuthurwyr ffilm benywaidd llwyddiannus fel Jane Campion a Kelly Reichardt, dathlu *Pride* a rhaglen o ffilmiau i hyrwyddo Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

[Twitter](#), [Facebook](#)

[Dragon Theatre \(y Bermo\):](#)

Mehffin - Rhagfyr 2022

Tref fechan glan y môr ydy'r Bermo sydd yn croesawu twristiaid drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn yr haf. Drwy raglen o ffilmiau Cymreig fe fydd trigolion ac ymwelwyr yn darganfod gwahanol bersbectifau o Gymru ar sgrin. Fe fydd ffilmiau byr, ffilmiau a digwyddiadau arbennig gyda doniau yn cyflwyno cynulleidfaoedd i'r broses greadigol o wneud ffilmiau, diwylliant Cymreig ac yn galluogi'r gymuned i ailgysylltu yn dilyn covid-19. Mae gweithgareddau hefyd yn cynnwys *Young at Heart* a *Chlwb Ffilm Sadwrn* i gynulleidfaoedd ifanc.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

[Gorllewin Cymru](#)

[Magic Lantern \(Tywyn\):](#)

Mehffin - Rhagfyr 2022

Fe fydd Magic Lantern yn 'codi llinynnau' bod yn gadarnhaol ar ôl covid. Drwy ymchwil

cynulleidfa fe fyddan nhw yn ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd iau a chadarnhau rhaglennu drwy griw ifanc gan wahodd rhagor o bobl ifanc i fynychu eu dangosiadau ffilm Gwnaethpwyd yng Nghymru, ffilmiau Clwb Ffilm misol a ffilmiau 'Môr a Mynydd' misol ynghylch gweithgareddau awyr agored a dangosiadau ffilmiau arswyd archif gyda cherddoriaeth byw.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Sinema Sadwrn (Llansadwrn)

Ebrill - Rhafyr 2022

Fe fydd Sinema Sadwrn yn Llansadwrn yn rhaglennu naw ffilm yn cynnwys pump dangosiad o ffilmiau annibynnol Prydeinig (yn cynnwys rhai Cymreig) a rhyngwladol. Fe fyddan nhw yn dangos ffilmiau byr Cymreig cyn pob un o'r naw prif ffilm i arddangos talent Cymreig newydd a straeon sydd yn adlewyrchu bywyd yng Nghymru a fydd yn cyd-daro gyda phrofiadau aelodau'r gynulleidfa. Yn dilyn oedi oherwydd covid mae'r sinema fechan wledig yma yn parhau i ddarganfod ei thraed ar ôl ailagor ac fe fydd eu rhaglen yn rhoi cyfle i fynychwyr sinema ailgysylltu yn ddiogel gyda'r gymuned drwy rannu profiad sinematig.

[Facebook](#)

Ar draws Cymru

Gŵyl Ffilmiau Unity (Caerdydd, Bangor, Llanelli)

20 Mehefin – 1 Gorffennaf 2022

Mae Gŵyl Hijinx Unity yn ŵyl gelfyddydol gynhwysol sydd yn rhedeg bob 2 flynedd ers 2008. Eleni am y tro cyntaf fe fydd gŵyl ffilmiau yn rhedeg pchr yn ochr yn Chapter Caerdydd (20 a 21), Pontio ym Mangor (28 Mehefin) a Ffwrnes yn Llanelli (1 Gorffennaf). Gan arddangos gwaith cynhwysol gan bobl gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth fe fydd yn cynnwys ffilmiau a ffilmiau byr o bob math, trafodaethau panel a sesiynau Holi ac Ateb wyneb yn wyneb ac ar Zoom.

[Website](#), [Facebook](#)

Watch-Africa CIC - Watch-Africa gŵyl ffilmiau (Caerdydd, Abertawe, Bangor, Tywyn)

Ebrill – Rhagfyr 2022

Fe fydd 9fed Gŵyl Ffilmiau Watch-Africa yn edrych ar beth sydd yn cysylltu gweddi y byd i gyfandir Affrica, sut i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o fyw a chysylltu gydag eraill.

Fe fydd yr ŵyl yn archwilio themau byd-eang o amrywiaeth a chynhwysiant ar draws iaith, hunaniaeth a pherthyn drwy raglen o ffilmiau a gweithgareddau. Yn benodol fe fydd Watch-Africa yn archwilio Ujamaa, gair Swahili yn golygu cymundod ac yn ystyried sut beth ydy cynhwysiant i gymunedau gwledig yn Affrica – sut maen nhw'n cysylltu gyda mudiadau byd-eang fel Black Lives Matter a SARS.

Fe fyddan nhw hefyd yn gweithio gyda Docubox, cronfa ffilmiau dogfen Dwyrain Affrica sydd yn cefnogi gwneuthurwyr ffilm ar draws Dwyrain Affrica, ar gyfnewid ffilmiau a dosbarthiadau meistr lle bydd 4 ffilm Gymreig yn cael eu dangos yn Kenya/Dwyrain Affrica a Chymru, gan archwilio iaith, hunaniaeth, mudo a gweledigaeth y dyfodol.

[Web](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Gŵyl Ffilmiau WOW (Cymru Gyfan yn cynnwys Casnewydd ac Abertawe)

24 Chwefror – 12 Mawrth 2022

Taith Cymru gyfan o 15 o ddangosiadau gyda ffocws ar bobl gynhenid. Eu ieithoedd a diwylliannau ehangach, yn cynnwys sut mae diogelu eu hamgylcheddau naturiol yn cynnig gwerrs hanfodol inni ar gyfer y dyfodol. Mae'r daith yn cynnwys ffilmiau o India, Asia, De America, Affrica a bydd yn digwydd o amgylch Diwrnod Rhyngwladol Menywod. Yng Nghasnewydd ac Abertawe fe fydd Clwb Ffilm WOW yn ymestyn allan i fenywod BIPOC

gan gynnig dangosiadau yn ystod y dydd a chynigion ar gyfer y daith ehangach. Fe gaiff y daith ei chynnig hefyd i gymdeithasau ffilm ar gyfer dangosiadau digwyddiadau arbennig.
[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

Gŵyl Animeiddio Siapaneaidd Kotatsu (Caerdydd, Aberystwyth a Bangor)

1 Medi – 31 Hydref 2022

Fe fydd Gŵyl Ffilmiau Siapaneaidd Kotatsu yn dangos detholiad o ffilmiau yn Chapter Caerdydd, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth a Pontio Bangor, gyda gweithdai ar-lein Zoom a sesiynau Holi ac Ateb. Eleni maen nhw'n cyflwyno Manga Comic Café (ardal ddarllen comig Siapaneaidd am ddim) ym mhob lleoliad ac mewn caffis lleol – i hyrwyddo diwylliant Siapaneaidd ochr yn ochr gyda'r ŵyl.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#)

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Silvia Sheehan, Swyddog Cyfathrebu / silvia@filmhubwales.org (rhan amser dydd Mawrth – Iau),
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Nodiadau i Olygyddion:

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gydweithio gyda dros [315 o arddangoswyr](#) ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 250 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 465,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) fel rhan o [Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#), mae [Chapter](#) wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

[Gwefan](#)

Am BFI

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy

Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU

- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am y Loteri Cenedlaethol

Diolch i chwaraewyr y Loteri Cenedlaethol, mae hyd at £600 miliwn o gyllid wedi ei ddarparu i gefnogi cymunedau ar draws y DU yn ystod y pandemig Coronafeirws.

Mae'r Loteri Cenedlaethol yn chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi prosiectau, pobl a chymunedau yn ystod y cyfnod heriol yma.

Drwy chwarae'r Loteri Cenedlaethol, rydych yn gwneud cyfraniad rhyfeddol at yr ymateb cenedlaethol i frwydro yn erbyn effaith COVID-19 ar gymunedau lleol ar draws y DU.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Chapter

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)